# Safle Rheoli Ffiniau Gogledd Cymru

Crynodeb Annhechnegol

Cod yr Adroddiad: BCP21-006-01-00

O ganlyniad i benderfyniad y Deyrnas Unedig i adael yr Undeb Ewropeaidd, a chan fod y cyfnod pontio wedi dod i ben ar 31 Rhagfyr 2020, mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru greu Safle Rheoli Ffiniau i wasanaethu Porthladd Caergybi. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu datblygu'r Safle Rheoli Ffiniau ym Mharc Cybi, Caergybi, i wirio'r holl nwyddau Iechydol a Ffytoiechydol ("SPS") sy'n cyrraedd y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd. Mae nwyddau SPS yn cynnwys planhigion, cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid (POAO), anifeiliaid byw a bwyd a phorthiant risg uchel nad yw'n dod o anifeiliaid. Yng Nghaergybi, byddai angen archwilio nwyddau sy'n cyrraedd Cymru o Weriniaeth Iwerddon. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y gwiriadau hyn. Nid oes digon o le yn y porthladd ar hyn o bryd i brosesu'r gwiriadau SPS sy'n ofynnol. Mae Safle Rheoli Ffiniau gweithredol yn hanfodol i alluogi'r porthladd i barhau i drin nwyddau SPS.

Mae angen i Lywodraeth Cymru gael cymeradwyaeth ar gyfer ei defnydd arfaethedig o'r safle, ac mae'n ceisio'r gymeradwyaeth hon trwy ofynion Gorchymyn Datblygu Arbennig (SDO) o dan adran 59(3) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae tystiolaeth wedi cael ei chasglu i ategu'r broses o ddrafftio'r SDO a dangos addasrwydd Plot 9 i'w ddefnyddio fel Safle Rheoli Ffiniau (BCP).

Mae cymeradwyaeth yn cael ei cheisio ar gyfer Amlen Gydsynio "Rochdale". Mae amlen gydsynio "Rochdale" (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel yr 'Amlen Gydsynio') yn amlinellu terfynau asesedig uchaf y datblygiad, y bydd yr holl waith datblygu'n gyfyngedig iddynt. Mae'r Daenlen Cyfyngiadau SDO (BCP21-006-04-00) yn cyd-fynd â chynllun yr Amlen Gydsynio (BCP-21-006-05-00), ac mae'n rhoi mwy o fanylion am y terfynau arfaethedig i liniaru effeithiau posibl y datblygiad. Bydd cynllun yr Amlen Gydsynio a'r terfynau cysylltiedig yn sicrhau nad yw dyluniad terfynol y BCP yn sbarduno effeithiau amgylcheddol arwyddocaol, ar yr un pryd â chaniatáu lefel briodol o hyblygrwydd o ran dylunio.

Bydd y cynllun arfaethedig yn cynnwys yr elfennau canlynol a fydd yn cael eu gwireddu o fewn y terfynau a sefydlwyd gan yr amlen gydsynio;

- Cyfleusterau archwilio wedi'u lleoli o fewn adeiladau ffrâm porthol dur ar gyfer cynnyrch planhigion, anifeiliaid bach, anifeiliaid mawr, ceffylau ac adeiladau swyddfa cysylltiedig
- Rhwydwaith ffyrdd mewnol yn cynnwys lonydd cadw cyfochrog aml-gerbyd ("lonydd nofio") a lle parcio i gerbydau mawr
- Lle parcio ar gyfer staff
- Seilwaith ategol fel cyfarpar mecanyddol a thrydanol, ffensys diogelwch, rheoli mynediad, teledu cylch cyfyng a cholofnau goleuadau
- Cyfleusterau rheoli gwastraff
- Draeniad sy'n cydymffurfio â systemau draenio cynaliadwy; a,

- Thirweddu.

Mae’r nodweddion canlynol yn fesurau lliniaru hanfodol i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau amgylcheddol arwyddocaol fel y dangosir ar gynllun Amlen Gydsynio’r SDO (BCP-21-006-05-00).

- Bydd un prif bwynt mynediad/ymadael ar gyfer cerbydau sy’n dod i mewn i’r safle. Bydd pwyntiau mynediad ac ymadael ychwanegol ond yn cael eu caniatáu i’w defnyddio mewn argyfwng, ac maent i’w hadeiladu gyda glaswellt cyfnerthedig hydraidd.
- Bydd adeiladau a lloriau caled wedi’u cyfyngu i’r tir a ddynodwyd fel yr ‘ardal ddatblygadwy’. O fewn yr ardal hon, bydd uchderau adeiladau wedi’u cyfyngu, a’u rhannu’n dri pharth, sef 33m AOD, 28m AOD a 23m AOD. Ni fydd datblygiad o unrhyw fath yn digwydd o fewn yr ardal a ddisgrifir fel ‘Brigiad Caregog’
- Bydd angen mesurau lliniaru sŵn, ac mae lleoliad dangosol wedi’i ddarlunio.
- Bydd bwnd y dirwedd bresennol gyda choed yn cael ei gadw a’i wella.
- Bydd byfferau tirweddu ychwanegol yn cael eu darparu, o leiaf 10m o led o’r bwnd tirwedd presennol. Bydd hyn yn cynnwys plannu coetir trwchus sy’n cynnwys rhywogaethau coed cymysg brodorol ochr yn ochr â’r bwnd coed presennol i sgrinio’r datblygiad o olygfeydd Gorllewn-De-Orllewin o’r safle.
- Bydd pwll presennol yng nghornel dde-ddwyreiniol y safle yn cael ei gadw.

Mae’r Adroddiad Cynllunio’n amlinellu’r ymagwedd ar gyfer yr Amlen Gydsynio ac yn dangos ei bod yn cydymffurfio â pholisïau cenedlaethol a lleol perthnasol. Mae hefyd yn amlinellu’r ystyriaethau perthnasol sy’n gysylltiedig â datblygu’r BCP a’r terfynau sy’n ofynnol i liniaru effeithiau posibl y datblygiad. Mae cynllun yr Amlen Gydsynio a’r Daenlen Cyfyngiadau SDO yn ffurfio’r sail i’r SDO arfaethedig.

Ni chaniateir defnyddio Gorchymyn Datblygu Arbennig o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 os bydd y datblygiad yn arwain at effeithiau amgylcheddol arwyddocaol o dan y Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol. Felly, mae Adroddiad Amgylcheddol wedi cael ei lunio, sy’n dangos sut mae’r Amlen Gydsynio arfaethedig yn sicrhau na fydd unrhyw effeithiau amgylcheddol arwyddocaol o ganlyniad i adeiladu a gweithredu’r BCP.

Cefnogir egwyddor y datblygiad gan amcanion polisi cenedlaethol a lleol. Mae’r safle wedi’i ddiffinio fel tir sydd wedi’i ddiogelu ar gyfer mentrau cyflogaeth a busnes yn y cynllun datblygu mabwysiedig, ac nid yw’r safle’n gwrthdaro ag unrhyw ddefnyddiau blaenorol na chaniatadau cynllunio sydd eisoes yn bodoli. Ystyrir hefyd bod y BCP yn annhebygol o achosi niwed pellach i’r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE), y mae wedi’i leoli ynddi, a ddynodwyd yn bennaf i ddiogelu parth arfordirol Ynys Môn. Ni fydd defnyddio’r safle fel BCP yn barhaol yn atal datblygu’r safle yn y dyfodol os na fydd angen cyfleuster BCP mwyach.

Mae’r safle wedi’i dirweddu a’i ddatblygu’n rhannol ar hyn o bryd ar gyfer cyfleuster pentyrru Cerbydau Nwyddau Trwm (HGV) dros dro, yr ystyrir ei fod yn debyg i egwyddor y defnydd arfaethedig o’r safle i hwyluso symudiadau HGV.

Yn gyffredinol, dylid ystyried bod y cynnig yn y lleoliad mwyaf priodol sydd ar gael ar gyfer ei bwrpas a’i fod yn gydnaws ag amcanion y cynllun datblygu lleol ar gyfer datblygiad a thwf economaidd yn y dyfodol. Felly, mae’n cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Cenedlaethau’r Dyfodol 2015 yn yr ystyr ei fod yn darparu twf cynaliadwy, ac yn cael ei gefnogi gan bolisïau cynllunio lleol a chenedlaethol.

Mae’r asesiadau a gynhaliwyd i gefnogi’r sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr SDO hwn wedi dod i’r casgliad na fyddai unrhyw effeithiau amgylcheddol arwyddocaol tebygol o ganlyniad i’r cynllun. Mae hyn oherwydd mesurau dylunio a lliniaru sydd wedi cael eu hymgorffori yn nyluniad y cynllun, a gyflwynwyd yn yr Amlen Gydsynio a’r Cyfyngiadau SDO, gan felly leihau effeithiau amgylcheddol i lefelau nad ydynt yn arwyddocaol. Felly, dylid tybio nad oes unrhyw ystyriaethau perthnasol a ddylai atal drafftio’r SDO a’i gymeradwyo wedi hynny.